




Rhondda Cynon Taf Carfan Plant sy'n Derbyn Gofal



Llinell Gymorth ar gyfer Rhieni Maeth a Chynhalwyr sy'n Berthnasau

Hoffai Carfan Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal RhCT barhau i gefnogi rhieni/cynhalwyr a theuluoedd yn ystod y cyfnod heriol yma. Rydyn ni'n cydnabod efallai bod y sefyllfa bresennol, gan gynnwys cau ysgolion, yn heriol ac mae'n bosibl bod y pryderon ynghylch y Coronafeirws yn cynyddu pryderon plant a theuluoedd.

Os ydych chi'n rhiant/cynhaliwr plant sy'n derbyn gofal ac rydych chi o'r farn y byddech yn elwa ar rywfaint o arweiniad i'ch helpu ag unrhyw bryderon sy'n codi ar yr adeg yma, mae llinell gymorth dros y ffôn ar gael ar eich cyfer chi neu ar gyfer y plant rydych chi'n gofalu amdany'n nhw.

Efallai bydd y pryderon yr hoffech eu trafod yn cynnwys:

- Pryder ynghylch y sefyllfa bresennol a'i heffaith arnoch chi, eich plant a'ch teulu
- Cymorth i chi er mwyn helpu i gefnogi anghenion emosiynol eich plant
- Pryderon am ddysgu, strwythuro diwrnodau a gweithgareddau
- Sut i edrych ar ôl eich hun orau
- Mae modd inni hefyd gyfeirio rhieni at wasanaethau perthnasol, fel rydyn ni'n ei weld yn briodol.

Bydd y Garfan Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynnig galwad ffôn gychwynnol rhyngoch chi ac aelod o'i staff a galwad ddilydol bosibl (yn ôl yr angen/os ydych chi'n dymuno hynny). Mae'r llinell gymorth yma ar gael dydd Llun-dydd Gwener o 9.00am tan 12.00pm.

Os hoffech chi ddefnyddio'r gwasanaeth yma, e-bostiwch AtgyfeiriadauPDG@rhondda-cynon-taf.gov.uk. Cofiwch gynnwys yr wybodaeth ganlynol yn eich e-bost:

- Eich enw:
- Eich perthynas â'r plentyn (h.y. rhiant maeth, cynhaliwr sy'n berthynas, ac ati)
- Disgrifiad byr o'r hyn sy'n codi pryder/yr hyn yr hoffech chi gael cymoi
- Y rhif ffôn gorau i ni gysylltu â chi
- Ysgol bresennol eich plentyn
- Amserau a dyddiadau dydych chi ddim ar gael i dderbyn galwad

Bydd y gwasanaeth, **cyn belled ag y bo modd**, yn gyfrinachol. Byddwn ni'n gweithdrefnau diogelu RhCT

